**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL

P Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); J Brown (Dirprwy Reolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Mike Halstead | Pennaeth yr Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2013 i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd dim materion yn codi.

4 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

4.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2014/15 i'r Aelodau. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau yn cael eu craffu'n effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adroddiad gyda chymorth cyflwyniad manwl, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

4.2 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Darbodus CIPFA a pharatoi dangosyddion darbodus. Mae pob dangosydd naill ai'n crynhoi'r gweithgaredd cyfalaf disgwyliedig neu'n gosod terfynau ar y gweithgaredd hwnnw, ac mae'n adlewyrchu canlyniad system arfarnu cyfalaf yr Awdurdod.

4.3 Dywedodd y Cadeirydd bod fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf yn dipyn o gyfrifoldeb i'r Awdurdod, ac esboniwyd bod ffioedd llog ac ad-daliadau cyfalaf wedi eu cynnwys yn y gyllideb refeniw. Cyllideb ddigyfnewid sydd gan yr Awdurdod ar gyfer 2014-15, ond cydnabyddir y bydd angen i'r Aelodau gadw mewn cof fod y costau ar gyfer gwasanaethu'r rhaglen gyfalaf gymeradwyedig yn codi flwyddyn ar ôl blwyddyn. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Trysorydd am strategaeth yr Awdurdod i leihau'r gyllideb, ac y bydd y pwysau'n cynyddu erbyn 2015-16.

4.4 I ateb cwestiwn ynglŷn â chyfraniadau'r awdurdodau lleol, esboniodd y Trysorydd mai'r sefyllfa o dan y gyfundrefn ariannol gyfredol yw mai'r Awdurdod o hyd sydd â'r awdurdodaeth i benderfynu ar ei wariant ei hun, ac na all yr awdurdodau lleol ddylanwadu ar broses yr Awdurdod o osod ei gyllideb.

4.5 Aeth Ms Forrest ymlaen i drafod strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod gan gynnwys y sefyllfa fenthyca a'r strategaeth fuddsoddi. Esboniodd ei bod yn dal yn rhatach benthyca gan awdurdodau lleol eraill na chan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

4.6 Cafodd yr Aelodau wybod am y risgiau yn 2014/15, gan gynnwys y ddeddfwriaeth a ddaw y flwyddyn nesaf, sef Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2014. Esboniodd Ms Forrest sut y bydd y Ddeddf yn effeithio ar y modd y bydd awdurdodau lleol, gan gynnwys ATAau, yn buddsoddi arian yn y dyfodol. Bydd angen i'r Awdurdod benderfynu ar y ffordd ymlaen gyda buddsoddiadau unwaith y bydd y Ddeddf wedi dod i rym. Gofynnodd y Cyng. A Jones i Arlingclose, pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym, lunio papur briffio i'r Pwyllgor Archwilio ar y newidiadau i fancio.

4.7 Mae gofyn i'r Awdurdod dalu elfen o'i wariant cyfalaf bob blwyddyn drwy dynnu o'r cyfrif refeniw. Felly mae angen i Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau pob blwyddyn. Nodwyd bod y gyllideb wedi ei gosod gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol

- 4% o'r balans sy'n ddyledus o wariant cyfalaf a wariwyd ar Dir ac Adeiladau
- ac ar gyfer Cerbydau, Peiriannau, Offer ac Isadeiledd, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar amcangyfrif o oes yr asedau.

4.8 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r bedair elfen allweddol sydd yn yr adroddiadau hyn, a'u hargymell i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) y dangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan God Ariannol CIPFA ar Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**

**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn ynglŷn â benthyca tymor byr a hir ar gyfer 2014/15 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**

**(iii) y strategaeth i'w dilyn ynglŷn â buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**

**(iv) y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2011 HYD AT 2015

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Keith Williams o Adran Archwillio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r adroddiad yn hysbysu'r aelodau am y strategaeth archwilio mewnol hyd at 2015.

5.2 Mae cylch gwaith Archwilio Mewnol wedi ei nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod rhwng 1af Ebrill a 31ain Mawrth 2015.

5.3 Nodwyd bod nifer o'r meysydd risgiau sydd ag Asesiad Risg 'A' yn dod dan Swyddfa Archwilio Cymru neu KPMG. Mae meysydd risg o'r fath yn cynnwys Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Perfformiad a Rheoli Risg. Dim ond 50 niwrnod y flwyddyn sydd gan y Tîm Archwilio Mewnol, felly mae cael yr archwilwyr allanol i asesu'r categorïau risg 'A' yn galluogi'r Tîm Archwilio Mewnol i ganolbwyntio ar yr agweddau dydd i ddydd o waith y Gwasanaeth. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn rhestru pwy sy'n gyfrifol am bob categori.

5.4 Cadarnhawyd bod yr holl staff archwilio yn cydymffurfio â phecyn hyfforddi archwilio CIPD a bod eu hyfforddiant yn gyfredol.

5.5 **PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2011–2015.**

6 GWYBODAETH AM BENSIYNAU

6.1 Rhoddodd y Dirprwy Reolwr Cyllid/Swyddog Pensiynau drosolwg i'r Aelodau o'r ddau gynllun cyfredol ar gyfer diffoddwyr tân, ynghyd â'r cynllun newydd arfaethedig sydd i'w roi ar waith yn 2015 yn dilyn dyfodiad Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Cafodd cwestiynau'r Aelodau eu hateb, a dyma'r materion a godwyd:

- ar hyn o bryd, am bob £1 sy'n cael ei thalu i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan y gweithiwr mae'r trethdalwr yn cyfrannu £5. Felly, gan ddilyn yr egwyddorion sydd yn adroddiad Hutton, mae'r llywodraeth yn ceisio cyflwyno cynllun pensiwn newydd ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân yn Ebrill 2015. Cynllun â'r buddion wedi'u diffinio fydd hwn hefyd, ond bydd yn seiliedig ar enillion wedi'u hadbrisio yn ôl cyfartaledd gyrfa, gyda llai o fuddion a'r oedran ymddeol yn codi i 60
- mae'n bwysig cofio mai gyda'r Llywodraeth y mae anghydfod Undeb yr FBU, nid gyda'r cyflogwr
- rhaid i bob diffoddwr tân gael archwiliad meddygol bob blwyddyn o 40 mlwydd oed ymlaen
- mae'r cymorthdal sy'n dod gan Lywodraeth Cymru i'r ATA yn newid bob blwyddyn, yn dibynnu ar nifer yr ymddeoliadau bob blwyddyn.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

7 Y LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

7.1 Gan fod Victoria DeZouche o KPMG wedi ymddiheuro, cyflwynwyd y llythyr archwilio blynyddol gan y Dirprwy Glerc yn ei habsenoldeb.

7.2 Roedd Ms DeZouche wedi cadarnhau drwy e-bost mai crynodeb yw'r llythyr o'r adroddiadau archwilio a'r farn a ddarparwyd eisoes mewn adroddiadau blaenorol ym mis Medi, ac nad oes unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio.

7.3 **PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol, a nodi y caiff ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.**